

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Hosbis St Kentigern

Dyddiad y gweithgarwch: 2 Chwefror 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mawrth 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Wiriad Ansawdd o bell o Hosbis St Kentigern fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r hosbis yn rhoi gofal a chymorth i gleifion â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd. Mae ganddo'r capasiti i roi gofal arbenigol i hyd at 12 o gleifion ac mae digon o staff yn gweithio yno ar hyn o bryd i ofalu am hyd at wyth claf.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig presennol, y darpar reolwr cofrestredig a phrif nyrs y ward ar 2 Chwefror 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- A yw'r amgylchedd yn ddiogel i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr?
- A gaiff y risg o haint ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar ac adolygiadau o ddigwyddiadau. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym i'r gwasanaeth ailagor ym mis Mawrth 2020, ar ddechrau pandemig COVID-19, ar ôl bod ar gau ar gyfer gwaith adnewyddu cyn hynny. Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol a oedd wedi'i gwblhau i wneud yn siŵr bod yr amgylchedd mor ddiogel â phosibl i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr. Dywedwyd wrthym fod yr asesiad risg hwn yn cael ei gynnal bob chwe mis, a bod camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw risgiau a nodir.

Cawsom wybod mai ystafelloedd unigol en-suite oedd pob ystafell, a bod modd mynd i ardd yr hosbis yn uniongyrchol o bob ystafell. Er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion, mae llenni preifatrwydd wedi'u gosod ym mhob ystafell. Mae hyn yn sicrhau nad oes modd i unrhyw glaf weld y tu mewn i ystafell claf arall os bydd y drws ar agor. Mae bleindiau wedi cael eu gosod yn ffenestri'r ystafelloedd gwely hefyd. Esboniwyd wrthym na all yr hosbis ddarparu therapïau dydd i gleifion ar hyn o bryd oherwydd y risg o drosglwyddo COVID-19.

Yn dilyn trafodaethau, cawsom wybod fod staff yr hosbis yn defnyddio set o fesurau a luniwyd gan y Rhaglen Gydweithredol ar Gymhlethdod ac Asesu Canlyniadau (OACC)¹ i asesu anghenion unigol pob claf wrth ei dderbyn i'r hosbis. Caiff anghenion teuluoedd y cleifion eu hystyried hefyd fel rhan o'r broses hon. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ofal unigol, ac mae'n ymwneud â'r ffordd y mae'r staff yn parchu'r cleifion, yn gwrandao arnynt ac yn clywed eu llais, gan roi cyfle i'r cleifion nodi eu prif bryderon. Dywedwyd wrthym fod sgysiau agored yn cael eu cynnal â'r teuluoedd, gyda'r nod o bennu unrhyw wahaniaeth cadarnhaol y gall staff yr hosbis ei wneud i ofal y claf. Fel rhan o'r mesur, dywedwyd wrthym fod yr hosbis hefyd yn defnyddio modiwl Golwg ar Ofal² sy'n rhan o'r mesurau OACC. Mae hyn yn helpu i gael gwybod gan y cleifion a'u teuluoedd yr hyn y mae staff yr hosbis yn ei wneud yn dda, a'r hyn y gellid ei wella. Esboniwyd wrthym, yn y dyfodol, y bydd yr hosbis yn dechrau defnyddio'r Adnodd Asesu Anghenion Cymorth i Ofalwyr (CSNAT)³ er mwyn helpu i nodi prif bryderon gofalwyr a chynnig modd o ddarparu cymorth ychwanegol a chyfeirio at sefydliadau eraill am

¹ Mesurau canlyniadau a ddefnyddir yng ngwasanaethau gofal lliniarol yw'r Rhaglen Gydweithredol ar Gymhlethdod ac Asesu Canlyniadau (OACC), er mwyn mesur, dangos a gwella gofal i gleifion a'u teuluoedd. Fe'i lanswyd yng Ngholeg y Brenin, Llundain yn 2013.

² Mae Golwg ar Ofal yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd y claf ac effeithiau canfyddedig y gwasanaeth gofal lliniarol.

³ Adnodd seiliedig ar dystiolaeth yw'r Adnodd Asesu Anghenion Cymorth i Ofalwyr (CSNAT), sy'n hwyluso cymorth wedi'i deilwra i aelodau teulu a ffrindiau (gofalwyr) oedolion â chyflyrau hirdymor sy'n cyfyngu ar fywyd.

gymorth lle bo angen.

Esboniwyd wrthym fod gan y staff, fel clinigwyr, ddyletswydd gofal i hybu gofal unigol ac asesu anghenion ysbrydol y cleifion. Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant clinigol yn ddiweddar er mwyn helpu'r staff i ddeall anghenion ysbrydol a rhywioldeb y cleifion, ac i fynd i'r afael â nhw. Cawsom wybod nad oes caplan yn gweithio yn yr hosbis ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae cyllid ar gael i gael un yn y dyfodol. Caiff amgylchiadau unigol eu hystyried a gwneir trefniadau i sicrhau bodd modd i'r cleifion cysylltu ag arweinwyr ysbrydol yn rhithwir lle bo angen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym, ar yr adegau hynny pan fydd angen i arweinydd ysbrydol fod yn bresennol yn bersonol, y cynhelir asesiad risg ar gyfer pob achos unigol, ac mae modd mynd i ystafelloedd cleifion unigol o'r ardd yn uniongyrchol.

Dywedwyd wrthym fod canllawiau ar ymweliadau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod yr hosbis yn parhau i drin y cleifion a'r ymwelwyr â thrugaredd ac empathi. Ar hyn o bryd, mae pob claf yn cael enwi un ymwelydd penodol. Cawsom wybod fod perthnasau ac anwyliaid yn cael caniatâd i ymweld â'r cleifion pan fyddant yn nyddiau olaf eu bywyd, yn amodol ar asesiadau risg unigol. Mae prosesau ar waith i ganfod a oes symptomau COVID-19 gan ymwelwyr, neu a ydynt wedi bod mewn cysylltiad â phobl eraill sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19. Gofynnir i bob ymwelydd roi manylion at ddibenion y system monitro ac olrhain a, dangosir iddynt sut i wisgo a diosg⁴ cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir, a chânt eu tywys gan aelod o'r staff i gefn yr hosbis er mwyn gallu mynd i ystafell y claf o'r ardd yn uniongyrchol. Gofynnir i aelodau o wahanol aelwydydd beidio â chymysgu â'i gilydd yn ystafell wely'r claf. Newidiwyd un o'r ystafelloedd gwely nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd er mwyn creu ystafell i deuluoedd, lle gall yr ymwelwyr aros i wneud yn siwr na fydd ymwelwyr o wahanol aelwydydd yn cymysgu. Rhaid i unrhyw aelodau o'r teulu neu anwyliaid sydd am aros gyda'r claf dros nos aros yn ystafell wely'r claf a defnyddio ei gyfleusterau en-suite.

Esboniwyd wrthym fod y staff yn annog pob claf i fanteisio ar ymweliadau rhithwyr. Mae'r staff ar gael i helpu'r cleifion i drefnu galwadau fideo rhithwir ag anwyliaid os bydd angen. Dywedwyd wrthym fod yr hosbis wedi benthyc dyfeisiau electronig gan nyrsys McMillan i'r cleifion nad oedd ganddynt eu dyfeisiau eu hunain. Mae ffôn diwifr llinell dir hefyd ar gael yn yr hosbis i'r teuluoedd allu ffonio eu hanwyliaid. Cawsom wybod fod prosesau glanhau priodol ar waith i lanhau'r ffôn bob tro ar ôl iddo gael ei ddefnyddio.

Soniwyd wrthym hefyd am nifer o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn helpu i ddiogelu'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr rhag y risg o drosglwyddo COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau mai staff allweddol hanfodol yn unig sy'n gweithio yn yr amgylchedd gyda phob aelod o staff nad yw'n hanfodol yn gweithio gartref, trefniadau i gadw pellter cymdeithasol yn y cartref, sicrhau bod gel diheintio dwylo ar gael a bod y staff yn defnyddio PPE yn briodol. Esboniwyd wrthym fod y tîm cadw tŷ yn fach, ac yn gweithredu rhaglen o lanhau mwy dwys yn yr ardaloedd hynny o'r hosbis sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym fod ystafell gyfarfod y staff wedi'i gosod er mwyn sicrhau cadw pellter

⁴ Gwisgo a diosg yw'r broses o wisgo neu dynnu cyfarpar diogelu personol oddi arnoch.

cymdeithasol a bod trefniadau ar waith i gynnal cyfarfodydd o'r holl staff yn rhithwir, fel y bydd modd i'r holl staff fod yn bresennol mewn cyfarfodydd tîm.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr a adolygwyd yn ddiweddar ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Yn ystod ein trafodaeth, dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith yn yr hosbis i reoli materion atal a rheoli heintiau yn unol â gofynion COVID-19. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gadael yr hosbis drwy fynedfa'r cleifion mewnol. Drwy hyn, mae modd i'r uned cleifion mewnol ffurfio "swigen", ac mae'r staff yn aros yn yr uned cleifion mewnol yn ystod eu sifft. Ceir sinc wrth y fynedfa, ac mae pob aelod o'r staff yn golchi eu dwylo ac yn gwisgo masg cyn dod i mewn. Wrth i'r staff ddod i mewn i'r uned, ceir ystafell a newidiwyd i greu ardal newid i'r staff lle bydd y staff yn newid i'w dillad gwaith. Mae'r canllawiau'n nodi mai dau aelod o'r staff yn unig a all fod yn yr ystafell ar yr un pryd. Dywedwyd wrthym hefyd y caiff dillad gwaith pob aelod o'r staff eu golchi ar y safle. Mae ystafell staff ar gael yn yr uned cleifion mewnol i'r staff gymryd eu seibiannau.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn dangos i Archwiliad Hylendid Dwylo a gwblhawyd ar 27 Tachwedd gael cyfradd cydymffurfiaeth o 100%. Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfod ar effeithiolrwydd clinigol staff bob wythnos, sy'n trafod pynciau megis hyfforddiant ar reoli heintiau a gwaith adolygu polisiau. Anogir pob aelod o'r staff i fod yn bresennol lle bo'n bosibl. Esboniwyd wrthym fod cynghorydd meddygol gan yr hosbis ar y Bwrdd sy'n cwblhau archwiliadau meddygol rheolaidd yn yr uned.

Yn ystod pandemig COVID-19, dywedwyd wrthym fod y cyflenwadau o PPE wedi parhau'n sefydlog, ac y cânt eu monitro i sicrhau bod digon ar gael. Mae nyrs gyswllt atal a rheoli heintiau gan yr hosbis, sy'n cynnal hyfforddiant mewnol ar atal a rheoli heintiau i'r staff. Dywedwyd wrthym fod profion ffitio wyneb⁵ a hyfforddiant ychwanegol ar wisgo a diosg hefyd wedi cael eu darparu er mwyn helpu'r staff i wisgo a diosg PPE yn gywir. Cawsom

⁵ Mae hyn yn galluogi staff hyfforddedig i sicrhau bod cyfarpar diogelu anadlol yn ffitio staff eraill yn gywir a'u bod yn cael hyfforddiant digonol i'w ddefnyddio.

wybod bod y staff banc yn cael yr un hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau â'r staff parhaol. Gwnaethom edrych ar y ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a ddarparwyd gan y gwasanaeth, a oedd yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth gan y staff yn gyffredinol mewn perthynas â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw gleifion yn yr hosbis sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer unrhyw glefyd heintus ar hyn o bryd. Esboniodd y staff wrthym y prosesau sydd ar waith ar gyfer gofalu am gleifion sy'n cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19 neu unrhyw heintiau eraill a oedd, dywedwyd wrthym, yn gyson â'r cyngor a'r canllawiau a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd.

Cawsom wybod am y prosesau sydd ar waith yn yr hosbis i'r staff gael prawf COVID-19 bob wythnos. Caiff tymheredd y staff ei gofnodi pan fyddant yn cyrraedd yr hosbis. Caiff unrhyw aelod o'r staff sy'n dangos symptomau ei anfon adref i hunanynysu a chael prawf. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff rheng flaen wedi cael ei frechiad COVID-19 cyntaf, neu wedi trefnu apwyntiad i'w gael. Esboniwyd wrthym hefyd y prosesau sydd ar waith yn yr hosbis ar gyfer profi cleifion ar gyfer COVID-19, a sut y gofelir am unrhyw gleifion sy'n cael canlyniad prawf positif.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym na chynhelir archwiliadau cyffredinol o drefniadau atal a rheoli heintiau yn rheolaidd yn yr hosbis. Rydym yn argymhell y dylid cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau bob mis er mwyn cefnogi ymhellach y prosesau sydd eisoes ar waith i leihau'r risg o ledaenu heintiau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod y broses o agor yr uned cleifion mewnol ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cyfnod hir o fod ar gau, wedi bod yn heriol i'r staff o ystyried effeithiau'r pandemig. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi mynd i'r afael â'r heriau hyn ac wedi'u datrys, a bod nifer y nyrsys sydd ar gael bellach yn briodol i ofalu am hyd at wyth claf. Cawsom wybod, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol, fod y gymhareb nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael ei hystyried ar gyfer pob sifft. Esboniwyd wrthym fod prif nyrs y

ward yn cwblhau rota'r staff o leiaf ddau fis ymlaen llaw, gan ystyried unrhyw wyliau blynyddol a drefnwyd, unrhyw achosion o salwch hirdymor, a chymysgedd sgiliau'r staff ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym fod cronfa graidd o staff banc yn cynnwys nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael eu cyflogi'n gyson yn yr hosbis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint, a bod pob un ohonynt yn cael yr hyfforddiant gorfodol a statudol. Cawsom wybod y caiff yr holl atgyfeiriadau sy'n dod i law ar gyfer derbyn cleifion i'r uned cleifion mewmol eu brysbennu a'u cynllunio yn unol â lefel yr angen, ac y caiff lefelau staffio a chymwyseddau staff eu hystyried er mwyn sicrhau y rhoddir gofal diogel ac effeithiol. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i lenwi swyddi gwag, a gwelsom dystiolaeth ddogfennol i ategu hyn.

Mae cyngor a gwybodaeth arbenigol am ofal lliniarol ar gael i staff yr hosbis 24 awr y dydd. Dywedwyd wrthym fod hyn ar gael i ddechrau drwy wasanaeth dyletswydd allan o oriau, a bod cymorth hefyd ar gael drwy linell gyngor â meddygon ymgynghorol sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cawsom wybod bod gwaith tîm amlddisgyblaethol yn effeithiol yn yr hosbis.

Gwnaethom edrych ar ffigurau hyfforddiant gorfodol cyffredinol a nodwyd meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau o ran cydymffurfiaeth. Drwy drafodaethau â'r staff, cadarnhawyd mai modiwlau e-ddysgu yw pob un o'r pynciau, a rhoddodd prif nyrs y ward sicrwydd inni fod camau gweithredu ar waith i sicrhau gwelliant yn y ffigurau cydymffurfiaeth.

Gwnaethom drafod y cymorth sydd ar gael i'r staff yn yr hosbis. Dywedwyd wrthym fod un o'r nyrsys staff wedi ymgymryd â rôl llesiant staff yn ystod y pandemig. Mae'r nyrs yn rhoi llawer o gymorth un i un i'r staff wrth gadw cyfrinachedd. Mae gwefannau llesiant hefyd ar gael i'r staff, ac maent wedi cael gwahoddiad i gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ofalgar. Dywedwyd wrthym fod cymorth hefyd ar gael drwy drafodaethau agored yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo'r bore, trafodaethau tîm a chyfarfodydd tîm misol. Esboniwyd wrthym fod sicrhau cyfathrebu effeithiol ymhlith yr holl staff yn hanfodol. Mae cymorth hefyd ar gael drwy sesiynau myfyriol â'r staff, yn arbennig gydag achosion neu amgylchiadau heriol. Cawsom wybod bod modd i'r staff hefyd fanteisio ar gymorth iechyd galwedigaethol gan y bwrdd iechyd, a gallant gael eu hatgyfeirio i gael cwnsela os bydd angen.

Gwnaethom drafod â'r gwasanaeth sut y rhoddir gwybod am ddiwyddiadau, sut y cânt eu rheoli a sut yr ymatebir iddynt. Gwnaethom hefyd edrych ar ddata ar ddiwyddiadau, a oedd yn dangos sawl diwyddiad sy'n gysylltiedig â system ffôn yr hosbis, y rhoddwyd gwybod amdanynt ers i'r gwasanaeth ailagor ym mis Mawrth 2020. Roedd yn gadarnhaol nodi i'r diwyddiadau hyn gael eu huwchgyfeirio'n briodol a'u datrys. Soniwyd wrthym hefyd am y ffordd roedd diwyddiadau'n cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd llywodraethu, a sut roedd adborth a dysgu yn cael eu rhannu.

Dywedwyd wrthym fod data ar leisiau'r cleifion yn cael eu coladu drwy'r adnodd Golwg ar Ofal, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Caiff adborth ei gasglu a'i fonitro am themâu. Caiff adborth cadarnhaol ei gyfathrebu â'r staff ar lafar, a chaiff negeseuon a chardiau'n diolch

i'r staff gan y cleifion a'r teuluoedd eu harddangos yn yr hosbis. Cawsom wybod hefyd am broses ar gyfer adborth negyddol, ac mae proses gwynion glir yn y gwasanaeth.

Gwnaethom drafod hefyd y trefniadau sydd ar waith yn yr hosbis ar gyfer gwneud atgyfeiriadau diogelu, rhoi gwybod amdanynt a'u monitro. Er y gwnaethom ganfod na wnaed unrhyw atgyfeiriadau ers i'r hosbis ailagor, mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu ar ddiogelu ac esboniwyd prosesau clir inni pe bai angen gwneud atgyfeiriad diogelu.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: St Kentigern

Gwasanaeth: Hosbis

Dyddiad y gweithgarwch: 2 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rydym yn argymhell y dylid cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau bob mis er mwyn cefnogi ymhellach y prosesau sydd eisoes ar waith i leihau'r risg o ledaenu heintiau.	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Cynhelir archwiliadau o drefniadau atal a rheoli heintiau bob mis, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer COVID-19.	Joyce Bellingham	Un mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Joyce Bellingham

Dyddiad: 18 Chwefror 2021